# Adroddiad Gwerthuso Diwedd Prosiect:

# Byw a Bod yn y Gymuned (1 & 2)

## Cwmni CELyn ar ran Arloesi Gwynedd Wledig

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2021



## Table of Contents

1. Cyflwyniad i'r Gwerthusiad ........ 3
1.1 Pwrpas a Nod ........ 3
1.2 Cyfyngiadau ........ 3
1.3 Cwestiynau Gwerthuso ........ 3
1.4 Dulliau Ymchwil ........ 3
2. Cefndir y Prosiect ........ 3
3. Canfyddiadau – Beth ddaru ni Ddarganfod? ........ 4
3.1 Costau ........ 4
3.2 Adroddiadau ........ 5
3.3 Cyfweliadau ........ 6
4. Casgliadau – Beth mae hyn i gyd yn ei olygu? ........ 8
5. Argymhellion – Beth rydym yn ei gynnig mewn ymateb i'r Casgliadau? ........ 9

# 1. Cyflwyniad i'r Gwerthusiad

## 1.1 Pwrpas a Nod

Bwriad y gwerthusiad diwedd prosiect ydy asesu perfformiad ac effaith prosiectau Byw a Bod 1 ac 2, gan adnabod gwersi ac argymhellion allai ddylanwadu ar brosiectau eraill i'r dyfodol.

## 1.2 Cyfyngiadau

Oherwydd y pandemig byd eang Covid-19, nid oedd yn bosib i ni gynnal unrhyw waith maes wyneb i wyneb fel rhan o'r broses werthuso. Serch hynny, roedd modd cynnal drwy ddulliau rhithiol a ffôn.

## 1.3 Cwestiynau Gwerthuso

Fel rhan o'r gwerthusiad byddwn yn ystyried y cwestiynau isod:

- Beth mae'r prosiect wedi ei gyflawni yn nhermau gweithgaredd, allbynnau a deilliannau? Pa mor effeithiol oedd hyn?
- Beth oedd effaith y prosiect ar fudd-ddeiliaid?
- Ydy'r prosiect wedi cyflawni o fewn y gyllideb?
- Oes rhywbeth fyddai wedi gallu cael ei wneud yn wahanol neu'n well? Beth yw'r gwersi?

## 1.4 Dulliau Ymchwil

Defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg i gynnal y gwerthusiad, yn cynnwys y canlynol:

**Ymchwil pen deg –** Yn cynnwys adolygiad o'r adroddiadau a chyflwyniadau yn deillio o'r prosiect.

**Cyfweliadau** - Cynhelwyd cyfres o gyfweliadau gyda sampl o 7 o fudd-ddeiliaid a swyddogion ym mis Hydref a Tachwedd 2021.

# 2. Cefndir y Prosiect

Sefydlwyd Prosiect Byw a Bod yn y Gymuned yn Haf 2020, yn ystod y pandemig Cofid-19.

Pwrpas y prosiect oedd i ddod a ddau her yn un – sef:

*"Darparu gwaith i bobl ifanc yn ystod y pandemig, pan nad oedd gwaith ar gael (e.e myfyrwyr Coleg mewn gwaith arferol yn ystod y gwyliau) ac hefyd iddyn nhw adnabod heriau yn eu cymuned boed wedi'i gysylltu gyda Covid-19 neu ddim."*



Nodwyd fod yr angen am y prosiect wedi ei adnabod yn sgîl nifer o bobl ifanc gartref o'r Brifysgol yn chwilio am waith dros dro, ond roedd cyfleon wedi eu cyfyngu oherwydd y pandemig Cofid-19.

Y nod oedd creu cyfleon gwaith am gyfnod o 8 wythnos a hynny drwy gyflogaeth gan fentrau lleol. Fel rhan o **Byw a Bod 1** - Roedd galwad agored i gymryd rhan, gyda 6 Menter Cymdeithasol ar draws 5 cymuned yng Ngwynedd wedi datgan diddorddeb i fod yn rhan:

Antur Aelhaearn
Partneriaeth Owen
Menter y Plu
Cwmni Bro
CellB
Siop Griffiths

Y mentrau oedd wedyn yn gyfrifol am recriwtio a phenodi pobl ifanc lleol i'r swyddi. Roedd Mentor annibynnol yn cael ei chyflogi hefyd fel rhan o'r prosiect er mwyn cefnogi'r bobl ifanc.

Yn ystod Byw a Bod 1 roedd cyfanswm o 18-person ifanc wedi eu cyflogi am gyfnod o 8 wythnos yr un. Yn sgil llwyddiant y prosiect, penderfynwyd creu dilyniant sef prosiect Byw a Bod 2, gyda cyfanswm o 6 person ifanc yn ychwanegol yn cael eu cyflogi gan Partneriaeth Ogwen (3 person ifanc), Cwmni Bro (2 person ifanc) ac Antur Aelhaearn (1 person ifanc).

Fel rhan o'r prosiect Byw a Bod 2, roedd y gefnogaeth mentora yn cael ei ddarparu gan y Mentrau Cymdeithasol eu hunain, gan adnabod hyn fel gwers o'r gyfres cyntaf, sef fod y gwaith yn ormod i un person a fod yn gwneud synnwyr i'r gefnogaeth yma gael ei ddarparu yn fewnol gan y cyflogwr.

# 3. Canfyddiadau – Beth ddaru ni Ddarganfod?

## 3.1 Costau

Roedd costau gweithredu'r prosiect fel a ganlyn:

Costau Byw a Bod 1 = £42,164.34 (Yn cynnwys cyflogau ar gyfer 18-person ifanc, costau mentora wythnosol a chostau gweinyddol).

Costau Byw a Bod 2 = £10,100 (Costau Cyflogau ar gyfer 6-person ifanc).

Ar gyfartaledd, roedd y bobl ifanc yn derbyn cyflog o tua £250 yr wythnos.

Am gyfanswm o ychydig dros £46,000 roedd 24-person ifanc wedi eu cyflogi am hyd at 8 wythnos yr un.

## 3.2 Adroddiadau

Roedd yn ofynnol i bob person ifanc a'r mentrau greu adroddiad yn adrodd ar yr hyn roeddynt wedi cyflawni yn ystod y prosiect. Adolygwyd sampl o'r adroddiadau dros y cyfnod. Mae tystiolaeth fod adroddiadau wedi eu cyflwyno gan pob menter a rhai o'r bobl ifanc, gyda rhai negeseuon cyson:

- Roedd amrywiaeth mawr yn y rolau a'r mathau o waith roedd y bobl ifanc yn ei wneud, gyda'r mentrau yn gyfrifol am osod rhaglenni gwaith yn unôl a'i anghenion nhw/anghenion lleol.
- Roedd amrywiaeth yn safon yr adroddiadau, roedd rhai yn gynhwysfawr iawn a rhai gyda diffyg manylder.
- Yn ogystal a chreu gwaith, roedd elfen o addysgu a datblygu sgiliau. Roedd y bobl ifanc wedi cael cyfle i ddysgu am theori datblygu cymuned, hanes y mentrau cymdeithasol ac hanesion y fro fel rhan o'r broses o'i paratoi ar gyfer yr rolau.
- Roedd y prosiect wedi annog datblygu sgiliau ymchwilio pobl ifanc, drwy roi cyfle iddynt adnabod heriau lleol drwy eu llygaid nhw ac dylanwadu ar ganfod ymatebion lleol.
- Roedd ymgysylltu cymunedol wedi bod yn greiddiol i'r broses, gan adnabod yr angen i gyrraedd at grwpiau anodd eu cyrraedd fel bobl ifanc, a chydnabod mai bobl ifanc eu hunain fyddai orau i adnabod sut i wneud hynny.
- Roedd un menter yn nodi y byddai wedi bod yn ddefnyddiol adnabod mentoriaid a oedd yn arbenigo mewn meysydd penodol, er mwyn tynnu mewn i gynghori pan fo angen – e.e. ynni, ffermio, technoleg.
- Roedd 2 o'r mentrau wedi llwyddo i ddenu grantiau o ganlyniad i geisiadau llwyddiannus â ddatblygwyd gan y bobl ifanc.



## 3.3 Cyfweliadau

Yn ystod Hydref a Tachwedd 2021, cynhelwyd 7 cyfweliad ffôn un i un gyda cynrychiolwyr o'r mentrau, pobl ifanc a swyddogion y prosiect. Mae modd grwpio y canfyddiadau i mewn i'r themau canlynol:

**Budd i'r Sefydliad**
Roedd yn amlwg drwy siarad gyda'r mentrau eu bod nhw wedi cael buddion positif o fod yn rhan o'r prosiect hwn. Roedd hyn yn cynnwys:

- Roedd wedi cynyddu capasiti'r mentrau dros dro i ymateb i heriau o fewn y gymuned leol.

  *"Ddaru ni roi lot o waith mewn iddo i'w wneud yn llwyddiant, doedd ddim yn hawdd ond roedd yn werthfawr iawn i ni fel sefydliad"*

- Roedd y mentrau wedi gallu cynnig gwaith dros dro i bobl ifanc yr ardal a fyddai wedi chael hi'n anodd ffeindio gwaith fel arall.

- Cryfhau ymgysylltiad gyda bobl ifanc.

  *"Mae hi'n gallu bod yn anodd cyrraedd at bobl ifanc, ac mae'r prosiect yma wedi llwyddo i'n helpu ni gryfhau ein trefniadau"*

  *"Ddaru ni ddefnyddio'r person ifanc i ddatblygu proses ymgynghori fel rhan o brosiect ehangach a mi ddaru weithio'n eithriadol o dda."*

- Roedd y gwaith a wnaethwyd gan y bobl ifanc mewn cyfnod byr wedi creu sylfaen dda ar gyfer gwaith ehangach yn y gymuned e.e. gwaith ymchwil, gwaith ymgsylltu.

- Y mentrau wedi gwerthfawrogi cyfraniad bobl ifanc, eu syniadau a'i brwdfrydedd, gan gydnabod gwerth hyn i'r dyfodol ac yn awyddus i greu rhagor o gyfleon ymysg yr ifanc.

  *"Mae o wedi gwneud i ni sylweddoli i pa gyfeiriad dan ni eisiau mynd iddo i'r dyfodol a mae creu cyfleon i bobl ifanc yn flaenoriaeth i ni rwan, ar sail llwyddiant Byw a Bod."*

- Roedd rhai o'r mentrau wedi gallu sicrhau dilyniant i'r swyddi, drwy gadw rhai o'r bobl ifanc ymlaen a mewn i swyddi eraill:

  *"Mae X wedi aros ymlaen gyda ni mewn swydd mwy tymor hir, roedd yr 8 wythnos dreuliodd hi gyda ni fel rhan o prosiect Byw a Bod yn sicr wedi cyfrannu at hyn a wedi rhoi profiad gwerthfawr oedd yn fanteisiol ar gyfer y swydd."*

**Budd i'r gymuned**
Gan fod yr arian wedi mynd i fentrau cymunedol, sydd yn gweithredu er budd lleol roedd y rhai gyfwelwyd yn teimlo fod y cymunedau yn sicr wedi elwa:

- Roedd wedi creu gwaith i bobl ifanc ac felly wedi hybu'r economi, mewn cyfnod heriol.

- Roedd wedi sbarduno prosiectau ehangach yn y gymuned o ganlyniad e.e. roedd un person ifanc wedi mynd ymlaen i gychwyn menter gymdeithasol newydd yn dilyn ei brofiad ac yn seliedig ar her oedd yn wynebu ei gymuned leol.

- Roedd wedi creu sylfaen gadarn ac gwell dealltwriaeth o anghenion y cymunedau lleol e.e. roedd rhai bobl ifanc wedi gweithio ar ddarnau penodol o ymchwil i ddeallt anghenion y cymunedau yn well a hyn wedyn wedi cyfrannu at lwyddiant prosiectau ehangach.

  *"Ddaru ni ddysgu lot mwy am y gymuned a'i anghenion yn ystod y cyfnod yma, ac roedd yn dda cael capasiti ychwanegol i ymchwilio mewn i'r materion. Mae hyn wedi bod o gymorth i ni wedyn wrth ymgeisio am grantiau."*

  *"Mae'r gwaith cafodd ei greu gan y person ifanc wedi creu teimlad o falchder bro".*

**Budd i'r pobl ifanc**
- Roedd y pobl ifanc yn amlwg wedi cael llawer o fudd o fod yn rhan o'r prosiect hwn.

  *"Mae wedi bod yn gret bod yn rhan o brosiect sydd o fewn fy nghymuned i, ac 'dwi wedi ennill llawer o sgiliau newydd"*

  *"Byddai'n dda cael adborth rwan o ran beth oedd canlyniad ein gwaith a beth mae hwn wedi arwain ato"*

  *"Roedd yn brofiad rili cyffrous a roeddwn wedi mwynhau bod yn rhan, buês yn ffodus wedyn i gael swydd mwy tymor hir gyda nhw"*

  *"Profiad gwych, roedd wedi rhoi lot o hyder i mi a roedd yn dda helpu fy nghymuned"*

  *"Mae wedi bod yn wych datblygu fy sgiliau, cael bod yn rhan o'r gymuned a rhan o ddatblygu'r gymuned"*

  *"Mae o wedi gwneud i mi werthfawrogi fy nghymuned hyd yn oed mwy".*

- Nodwyd y bobl ifanc eu bod nhw wedi dysgu llawer mwy am waith mentrau cymdeithasol o ganlyniad a gwerthfawrogiad o'i gwaith.



**Trefniadau yn gyffredinol**
- Nodwyd fod y trefniadau yn dda ac effeithiol. Yn ogystal, roedd sefydliadau yn teimlo fod cefnogaeth dda ar gael a fod y rôl fentora wedi bod yn bwysig.

  *"Roedd cefnogaeth dda o'r cychwyn i'r diwedd"*

  *"Roedd 'na lot o waith i wneud o fewn cyfnod byr ond roedd bendant gwerth iddo a cefnogaeth dda"*

- Cyfeirwyd at bwysigrwydd y rôl mentora a fod hyn wedi fod o gymorth, ond o bosib i'w ystyried i'r dyfodol byddai creu rôl Mentor o fewn y Sefydliadau i gefnogi'r pobl ifanc (fel yn Byw a Bod 2).

- Amseriad – Gan mai dros yr haf oedd y prosiect, nid oedd hyn yn rhwydd ar adegau gan fod Swyddogion yn dueddol o fod eisiau cymryd wyliau. Ond roedd cydnabyddiaeth mai dyma'r adeg gorau er mwyn 'dal' pobl ifanc oedd ar wyliau prifysgol.

- Roedd y ffaith fod y cynllun mor hyblyg, wedi golygu fod amrywiaeth yn y defnydd o'r rôlau a fod hyn wedi golygu anghysondeb yn yr hyn gafodd ei gyflawni.

## 4. Casgliadau – Beth mae hyn i gyd yn ei olygu?

Er yn brosiect dros gynfod byr, mae'n amlwg fod y prosiect wedi dod a llawer o fuddion i'r Mentrau bu ynghlwm, y cymunedau ac y bobl ifanc.

Yn ystod y cyfnod, bu i'r prosiect gynyddu capasiti'r sefydliadau er mwyn adnabod heriau penodol o fewn eu cymunedau a'i galluogi i ymateb yn rhagweithiol. Roedd wedi creu sylfaen ar gyfer datblygu prosiectau ehangach yn y cymunedau ac wedi sbarduno datblygiadau eraill.

Yn ogystal a'r buddion amlwg, llwyddwyd i gael buddiannau personol i'r bobl ifanc ac i'r gymuned ehangach. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu hyder a sgiliau'r bobl ifanc, gan arwain at rai yn derbyn swyddi tymor hir ac un arall yn mynd ymlaen i sefydlu menter gymdeithasol mewn ymateb i her roedd wedi adnabod. Roedd Mentrau yn nodi fod gwell dealltwriaeth rwan o gyfraniad a perspectif pobl ifanc, ac fod eu trefniadau ymgysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd, fel bobl ifanc wedi gwella o ganlyniad.

Llwyddwyd i gyflawni nod y prosiect sef:

*"Darparu gwaith i bobl ifanc yn ystod y pandemig, pan nad oedd gwaith ar gael (e.e myfyrwyr Coleg mewn gwaith arferol yn ystod y gwyliau) ac hefyd iddyn nhw adnabod heriau yn eu cymuned boed wedi'i gysylltu gyda Covid-19 neu ddim."*

Nid oedd targedau nag amodau penodol wedi eu gosod ar gyfer y prosiect. Mae manteision amlwg wedi bod yn hyblygrwydd y prosiect ac mae hyn wedi galluogi'r Mentrau i gyflawni yn unôl ag anghenion lleol. Ond, mae'r ffaith ei fod mor ben agored wedi golygu fod defnydd o'r arian wedi amrywio, gan ei wneud hi'n anodd cymharu allbynnau a chanlyniadau ar draws.

Roedd y Sefydliadau i gyd yn nodi ei canmoliaeth ac diolch am y prosiect, gyda awydd i gymryd rhan eto pe bai cyfle tebyg yn y dyfodol.

## 5. Argymhellion – Beth rydym yn ei gynnig mewn ymateb i'r Casgliadau?

Mewn ymateb i'r casgliadau rydym yn cynnig yr argymhellion isod ar gyfer unrhyw brosiect tebyg neu ddilyniant pellach:

- Er mai nod y prosiect oedd ei gadw mor hyblygu a phosib, pe bai cynllun tebyg yn cael ei sefydlu yn y dyfodol byddwn yn argymell y dylid cael amodau sylfaenol, fel fod targedau ar gyfer meincnodi a gwell cysondeb.
- Roedd y cynllun hwn wedi'i anelu at fyfyrwyr Prifysgol neu rhai oedd newydd adael. Ar gyfer unrhyw gynllun i'r dyfodol, byddwn yn argymell fod elfen o'r prosiect yn gwneud hi'n ofynnol i dargedu pobl ifanc 'anodd eu cyrraedd' sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant nag gwaith.
- Byddai manteision mewn dod a'r Mentrau a bobl ifanc ar draws yr ardaloedd ynghyd, yn rheolaidd er mwyn rhwydweithio, dysgu o brofiadau eu gilydd a rhannu arfer dda.
- I'w ystyried fyddai proses o adrodd yn ôl i'r bobl ifanc, iddynt gael gwybod beth oedd effaith tymor hir eu gwaith ac beth mae wedi arwain ato.